

Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Ymchwiliad i'r Ardoll Brentisiaethau

Mawrth 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddESS**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddESS**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Ymchwiliad i'r Ardoll Brentisiaethau

Mawrth 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Sefydlwyd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Russell George AC (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Mark Isherwood AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Jeremy Miles AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Adam Price AC**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**David J Rowlands AC**
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru

---

# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd .... 5
Argymhellion .... 6
01. Cyflwyniad .... 8
02. Cyfathrebu ac Ymgysylltu .... 9
03. Ariannu .... 12
04. Pryderon sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth .... 15
05. Materion trawsffiniol, disgwyliadau a chludadwyedd .... 19
06. Yr effaith ar y sector cyhoeddus yng Nghymru .... 23
Atodiad A .... 26

# Rhagair y Cadeirydd

Mae tystiolaeth sylweddol fod manteision prentisiaethau i brentisiaid unigol, y cyflogwyr sy'n eu cyflogi, a'r economi ehangach o ran cynyddu cynhyrchiant. O ganlyniad, mae prentisiaethau yn hanfodol i lwyddiant ein heconomi yn y dyfodol, ac yn gofyn am gefnogaeth drawsbleidiol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.


Ar 6 Ebrill 2017 bydd Ardoll yn cael ei chyflwyno ledled y DU ac mae hyn yn codi nifer o faterion yn ymwneud â maes pwysig polisi cyhoeddus. Mae'n achos pryder bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r ardoll hon gyda goblygiadau sylweddol i faes cyfrifoldeb datganoledig, heb ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig yn gyntaf, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Roedd ein hadroddiad yn edrych ar oblygiadau'r Ardoll ar gyflogwyr Cymru. Mae'n amlwg bod yr ardoll wedi llwyddo i godi proffil prentisiaethau, yn enwedig i sefydliadau nad oeddent wedi ystyried y model hwnnw yn y gorffennol ar gyfer datblygu eu gweithlu.

Clywsom am y dryswch a'r ansicrwydd yn ymwneud â'r Ardoll – yn enwedig yn y dyddiau cynnar. Er, nodwn, yn ystod ein hymchwiliad, y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen – "Sicrhau bod y model prentisiaethau'n gweddu i anghenion economi Cymru" a phecyn cymorth i gyflogwyr, sy'n llenwi nifer o'r bylchau cyfathrebu a gwybodaeth a nodwyd yn ein hymchwiliad.

Clywodd ein hymchwiliad hefyd y bydd yr Ardoll yn effeithio'n anghymesur ar bwrs cyhoeddus Cymru, gan arwain at sefydliadau'r sector cyhoeddus – y GIG, cynghorau lleol, y pedwar heddlu yng Nghymru – i anfon miliynau o bunnoedd o'r arian a ddyrannwyd i Gymru yn ôl i Drysorlys y DU bob blwyddyn. Bydd y Pwyllgor am fonitro'r effaith hon dros amser.

Gan edrych ymlaen, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr – yn enwedig y sector cyhoeddus a rhai nad ydynt yn flaenoriaeth – er mwyn parhau i adolygu eu hanghenion penodol drwy well deialog. Fel Pwyllgor, rydym yn bwriadu dychwelyd at y mater hwn yn y 12-18 mis nesaf, i adolygu pa effaith y mae'r ardoll wedi'i chael.



Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i'r Gweinidog ddwysáu ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob cyflogwr sy'n talu Ardoll yng Nghymru yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn ystod cyfnod rhagarweiniol yr Ardoll. ....................... Tudalen 11

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen cyfnod o sefydlogi a sicrwydd ar gyfer y sector yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog barhau i ymgysylltu â'r cyflogwyr o bob sector yn y misoedd nesaf a dylai nodi sut mae'n bwriadu gwneud hyn yn ei hymateb. ....................... Tudalen 11

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu effeithiau'r Ardoll ar gyflogwyr yng Nghymru ac yn cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau hyn i'r Pwyllgor ymhen blwyddyn, fan bellaf, ar ôl i'r Ardoll gael ei chyflwyno ar 6 Ebrill 2017. ....................... Tudalen 11

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn credu na ddylai unrhyw ardollau yn y dyfodol mewn cymhwysedd datganoledig gael eu cyflwyno heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i nodi hyn gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU. ....................... Tudalen 14

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen gwell cyfathrebu rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig rhwng Gweinidogion a rhwng swyddogion. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn nodi'r mater gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU. ....................... Tudalen 14

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dwysáu ei hymdrechion i dawelu pryderon sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yng Nghymru drwy weithio gyda nhw i ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant, gan gynnwys llwybrau prentisiaeth newydd, mewn meysydd llai traddodiadol fel gwasanaethau ariannol, rheoli prosiectau, adnoddau dynol a logisteg. ....................... Tudalen 18

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu sicrhau bod pob cyflogwr (gan gynnwys y rhai mewn sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth sy'n gwneud taliadau Ardoll) yn ymwybodol o'r cyfleoedd i oresgyn y mater 'dim adenillion uniongyrchol' drwy fodel Cymru o gyflawni prentisiaeth. ....................... Tudalen 18

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi arfer da ac yn gwerthuso'r cynigion ar gyfer y gronfa sgiliau hyblyg yn yr Alban (a elwir yn Gronfa Datblygu Gweithlu Hyblyg). .................................................. Tudalen 18

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu hyrwyddo a gwella'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau ymysg cyflogwyr yng Nghymru, yn enwedig ymysg y sectorau hynny nad ydynt yn draddodiadol wedi cael llwybrau clir i brentisiaethau lefel uwch. ............ Tudalen 18

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda chymheiriaid i sicrhau bod cyfleoedd i helpu busnesau i oresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu 4 system ar wahân yn cael eu nodi. ................. Tudalen 22

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn edrych ar opsiynau i weithio gyda busnesau a chyflogwyr i gael prentisiaethau gyda sectorau nad ydynt yn cyflogi prentisiaid yn draddodiadol. ...................... Tudalen 22

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell ar frys bod y Gweinidog yn lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw nifer y bobl a gyflogir gan awdurdodau lleol mewn ysgolion yn cael eu cynnwys yn nifer y cyflogeion cyffredinol awdurdodau lleol at ddibenion cyfrifo'r Ardoll. Bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar gyllidebau ysgolion yng Nghymru ac mae'n mynd yn groes i'r ffordd y caiff ysgolion Academi eu trin yn Lloegr. ........................................................................... Tudalen 25

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda heddluoedd yng Nghymru a gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i sicrhau na fydd heddluoedd Cymru o dan anfantais annheg gan y bydd yn rhaid i heddluoedd yng Nghymru dalu'r Ardoll ond na allant ddefnyddio'r Ardoll i gyfrannu at gyrsiau achrededig yng Nghymru. ........................................... Tudalen 25

# 01. Cyflwyniad

**1.** Cyhoeddwyd Ardoll Prentisiaeth y DU (yr Ardoll) yn 2015 yn yr adolygiad o wariant a datganiad yr hydref 2015 a disgwylir iddi ddod i rym o 6 Ebrill 2017. Bydd yr Ardoll yn cael ei thalu gan gyflogwyr ledled y Deyrnas Unedig a bydd yn gymwys i gyflogwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

**2.** Un o egwyddorion sylfaenol Ardoll Brentisiaethau'r DU yw annog cyflogwyr i adolygu ac ailwerthuso eu polisïau prentisiaethau, hyfforddiant a datblygu sgiliau. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod y nod hwn yn gadarn ac eisoes yn gweithio i ryw raddau. Mae'r ffaith bod yr Ardoll ar fin cael ei chyflwyno yn gwneud i gyflogwyr ganolbwyntio ar faterion hyfforddiant. Dylai hefyd roi cyfleoedd i gyflogwyr feddwl yn greadigol am eu hanghenion hyfforddiant.

Sut bydd yr Ardoll yn gweithio?

Bydd yn rhaid i gyflogwyr gyfrannu 0.5 y cant o gyfanswm eu bil cyflog i Gyllid a Thollau EM. Fodd bynnag, bydd gan gyflogwyr lwfans o £15,000 y flwyddyn i wrthbwyso yn erbyn yr Ardoll. Yn ymarferol, felly, bydd yr Ardoll ond yn daladwy ar filiau cyflog sydd dros £3 miliwn y flwyddyn. Gwnaeth yr Adran Addysg ar y pryd amcangyfrif y bydd yn rhaid i lai na 2 y cant o gyflogwyr yn y DU dalu'r Ardoll.

## Cefndir yr ymchwiliad

**3.** Ysgrifennodd Consortiwm Manwerthu Cymru (WRC) at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (y Pwyllgor) ym mis Tachwedd 2016 yn mynegi pryderon ynghylch cyflwyno'r Ardoll yng Nghymru. Yn benodol, mae'r WRC yn teimlo na fydd talwyr yr Ardoll yng Nghymru yn gweld adenillion uniongyrchol am eu cyfraniad.

**4.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r Ardoll Brentisiaethau ar 23 Tachwedd 2016. Bu'r Pwyllgor yn ymgynghori, a daeth deg ymateb i law. Gellir gweld manylion am sut y casglodd y Pwyllgor ei dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn ar wefan y Pwyllgor.[1]

## Polisi prentisiaeth Llywodraeth Cymru

**5.** Mae cyflwyno prentisiaethau yn parhau i fod yn fater datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**6.** Er bod materion ehangach yn ymwneud â pholisi prentisiaethau yng Nghymru wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad hwn, penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio ei ymdrechion ar yr Ardoll yn unig. Gellir gweld y cylch gorchwyl yn Atodiad A.

[1] www.cynulliad.cymru/SeneddESS

# 02. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

## Ymgysylltu

**7.** Mae cyflwyno'r Ardoll yng Nghymru wedi arwain at ansicrwydd, dryswch a lefelau amrywiol o ymgysylltu. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, clywodd y Pwyllgor y bu ychydig iawn o gyswllt uniongyrchol, ymgynghori ac ymgysylltu rhwng nifer o gyflogwyr a Llywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau'r Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru.[2]

**8.** Mae lefelau ymgysylltu wedi amrywio yn ôl sector gyda sectorau blaenoriaeth yn cael cyswllt rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac, mewn rhai achosion, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth ei hun, yn enwedig yn fwy diweddar.[3] Ar y llaw arall, mae sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth wedi mynegi pryderon am ddiffyg ymgysylltu.[4] Ymhelaethodd Sara Jones o Gonsortiwm Manwerthu Cymru ar hyn yn ystod tystiolaeth lafar, gan nodi:

> "I will say that engagement has improved dramatically over the last month, although, for us, that's too little, too late, because, quite clearly, the employer voice should be heard at an earlier stage. That's why we did call for consultation."[5]

**9.** Dywedodd Joanne Foster o GE Aviation:

> "we're hugely lucky that we're a preferred sector, so we do have a dialogue. I know that we can pick the phone up and have found the Welsh Government to be very agile when we have needed them, and vice versa. You know, it's a partnership. But we are in a preferred sector, so the views of other people might be different."[6]

**10.** Arweiniodd y lefelau ymgysylltu amrywiol rhwng Llywodraeth Cymru a chyflogwyr at beth dryswch mewn rhai sectorau a arweiniodd at alwadau am well eglurder. Nododd Ms Middleton o Atradius (sector arall nad yw'n flaenoriaeth) fod angen i fusnesau weld y camau paratoi cyntaf a dywedodd:

> "It's a little bit bewildering with all of the information that's coming out. We seem to be more aware of what's going on in England than in Wales."[7]

## Ymgynghori

**11.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yr Ardoll heb ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig. Dywedodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth (y Gweinidog), Julie James AC, fod y penderfyniad i gyflwyno Ardoll Brentisiaethau ledled y DU wedi dod heb rybudd.[8]

---

[2] 08 Consortiwm Manwerthu Cymru; 10 Colegau Cymru; 04 Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Cofnod y Trafodion Paragraffau 145, 150,
[3] Ibid. paragraff 84, 2 Chwefror
[4] 08 Consortiwm Manwerthu Cymru
[5] Ibid. paragraff 83, 8 Chwefror 2017
[6] Ibid. paragraff 91, 2 Chwefror 2017
[7] Ibid. paragraff 88, 2 Chwefror 2017
[8] Ibid. paragraff 128, 8 Chwefror 2017

**12.** Yn wahanol i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori'n benodol ar yr Ardoll ar ôl cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr ar ei dull prentisiaethau yn gynharach yn 2015 (a chyn i Ardoll Brentisiaethau'r DU gael ei chyhoeddi). Roedd nifer o'r tystion yn cyferbynnu'r sefyllfa yng Nghymru â mannau eraill yn y DU ac yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ymgynghori'n benodol ar yr Ardoll ar ôl ei chyhoeddi yn Natganiad yr Hydref 2015.[9]

**13.** Gan amddiffyn y dull a gymerodd Lywodraeth Cymru, nododd y Gweinidog yn y dystiolaeth:

> "We'd just finished an extensive consultation on apprenticeships at the point when the levy was introduced, so we were quite cross about the fact that we'd literally just finished the consultation. But we've also just set up the regional learning skills partnerships as a continuous consultation mechanism. And, honestly, I didn't think that consulting with—. What would we have been consulting on? We'd already done an extensive consultation about apprenticeship policy. We'd had really good responses across the board. We had good buy-in for our policy. We had good buy-in for all of the things we've just been talking about this morning. And then we had the levy introduced. So, what would we have been consulting on—abandoning everything we've just talked about in order to give levy-paying employers a different service? I frankly don't agree that we should consult about things that we have no intention of doing, and I had no intention of doing that. I don't think it's the right thing to do and I don't have any problem with what we did. We've been very open about it."[10]

## Cyfathrebu

**14.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Colegau Cymru am gynllun cyfathrebu clir yn nodi beth fydd ystyr yr Ardoll i gyflogwyr yng Nghymru. Clywodd y Pwyllgor fod cyflogwyr yn Lloegr wedi cael gwybodaeth am gyflwyno'r Ardoll cyn cyflogwyr yng Nghymru.[11] Yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar y Pwyllgor â busnesau ar 2 Chwefror, cytunodd y pedwar cyflogwr sy'n cynrychioli'r pedwar sector gwahanol fod angen mwy o gyfathrebu a deialog rhwng Llywodraeth Cymru a chyflogwyr.[12] Clywodd y Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â 200 o tua'r 700 o gyflogwyr sy'n talu Ardoll yng Nghymru.[13]

**15.** Ar 7 Chwefror 2017, sef diwrnod cyn i'r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ysgrifenedig a dogfen strategaeth ar 'Sicrhau bod y model prentisiaethau'n gweddu i anghenion economi Cymru'.

**16.** Cyhoeddwyd pecyn cyfathrebu manwl i gyflogwyr hefyd. Mae'r pecyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r Ardoll, yn egluro agweddau ar gyflwyno'r Ardoll ac yn cyfeirio cyflogwyr at ragor o wybodaeth.

---

[9] 08 Consortiwm Manwerthu Cymru; 01 Centrica; 02 Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeilad
[10] Cofnodion y Trafodion, paragraff 178, 8 Chwefror 2017
[11] Ibid. paragraff 83, 2 Chwefror 2017;
[12] Ibid. paragraffau 161 – 165, 2 Chwefror 2017
[13] Ibid. paragraff 147, 8 Chwefror 2017

**Casgliad 1.** Er bod y Pwyllgor yn croesawu cyhoeddi canllaw manwl ar ffurf pecyn cymorth prentisiaeth, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yn rhaid i gyflogwyr yng Nghymru aros tan fis Chwefror 2017 i gael y wybodaeth hon.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn cydymdeimlo â barn y Gweinidog na fyddai ymgynghoriad ar raddfa eang o ganlyniad i Lywodraeth y DU yn cyhoeddi'r Ardoll o reidrwydd wedi bod yn ddymunol. Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad yw pob cyflogwr wedi cael cyfle i fynegi eu pryderon i Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn deall y rhwystredigaeth a fynegwyd gan rai nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn dilyn cyhoeddi'r Ardoll. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog osgoi gwneud gwaith ymgysylltu anffurfiol yn hytrach nag ymgynghoriad ffurfiol yn y dyfodol, yn enwedig pan fo lefel ymgysylltu wedi amrywio o sector i sector.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i'r Gweinidog ddwysáu ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob cyflogwr sy'n talu Ardoll yng Nghymru yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn ystod cyfnod rhagarweiniol yr Ardoll.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen cyfnod o sefydlogi a sicrwydd ar gyfer y sector yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog barhau i ymgysylltu â'r cyflogwyr o bob sector yn y misoedd nesaf a dylai nodi sut mae'n bwriadu gwneud hyn yn ei hymateb.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu effeithiau'r Ardoll ar gyflogwyr yng Nghymru ac yn cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau hyn i'r Pwyllgor ymhen blwyddyn, fan bellaf, ar ôl i'r Ardoll gael ei chyflwyno ar 6 Ebrill 2017.

# 03. Ariannu

## System newydd o ariannu prentisiaethau yn Lloegr

**17.** Yn ogystal â'r Ardoll Brentisiaethau, mae Llywodraeth y DU hefyd yn cyflwyno system newydd i ariannu prentisiaethau yn Lloegr yn unig, ym mis Mai 2017.

**18.** Bydd taliadau Ardoll Brentisiaethau a wneir gan gyflogwyr yn Lloegr yn cael eu talu i "gyfrif digidol" gyda thaliad ychwanegol gwerth 10% gan Lywodraeth y DU. Bydd swm yr ardoll a delir i gyfrifon digidol i gyflogwyr yn Lloegr sy'n gweithredu yn rhannau eraill o'r DU yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar gyfeiriadau cartref y cyflogeion. Yna gall cyflogwyr yn Lloegr wario "talebau prentisiaeth digidol" i gaffael hyfforddiant prentisiaeth. Bydd cyflogwyr yn trafod pris yr hyfforddiant gyda darparwyr hyfforddiant.

**19.** Er na fydd ar gael yn ystod blwyddyn gyntaf yr Ardoll, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ganiatáu i gyflogwyr sy'n talu'r Ardoll yn Lloegr i drosglwyddo hyd at 10% o'u taliadau Ardoll blynyddol i gyflogwr arall neu asiantaeth hyfforddiant prentisiaethau. Bydd arian sydd heb ei wario mewn cyfrifon digidol yn dod i ben ar ôl 24 mis.

**20.** Yn ogystal, disgwylir i'r Sefydliad Prentisiaethau ddechrau gweithredu fel corff annibynnol dan arweiniad cyflogwyr ym mis Ebrill 2017, gan reoleiddio ansawdd prentisiaethau yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu creu cofrestr newydd o ddarparwyr hyfforddiant yn Lloegr a fydd yn dod i ddefnydd ym mis Mai 2017.

## Y dyraniad i Gymru

**21.** Roedd llawer o gyflogwyr yn tybio y byddai Cymru yn derbyn cyfran gyfrannol o'r refeniw a geir o'r Ardoll Brentisiaethau yn awtomatig, gan greu cyllid newydd ac ychwanegol ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru, er enghraifft:

> "Investing in skills
>
> Money paid by Welsh construction employers to support training, such as the Apprenticeship Levy, should be used for this purpose. The Apprenticeship Levy offers the opportunity of significant sustainable investment in apprenticeships in Wales that can build on the Welsh Government's already ambitious programme. There will be an annual grant to Wales of £138m by 2019/20 from the Apprenticeship Levy. This could give thousands more young people the opportunity to benefit from high quality training leading to a career in construction."[14]

**22.** Cafodd Llywodraeth Cymru wybod y byddent yn derbyn cyfran yn seiliedig ar boblogaeth o refeniw yr Ardoll (a fyddai'n ddarostyngedig i fformiwla Barnett). Cadarnhaodd Trysorlys EM y byddai Cymru yn cael £128 miliwn yn ystod blwyddyn gyntaf yr Ardoll ar 14 Tachwedd 2016.[15] Yna, cyhoeddodd y Trysorlys £13.7 miliwn pellach, ar ôl ailgyfrifo'r setliad ychydig yn wahanol o sail y setliad gwreiddiol, a gafodd ei gynnwys yn fformiwla Barnett.[16]

---

[14] 02 Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
[15] Datganiad i'r wasg Trysorlys EM 'UK government agrees apprenticeship levy funding deal with devolved administrations', 14 Tachwedd 2016
[16] Cofnod y Trafodion – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 14 Tachwedd 2016

**23.** Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gostyngiad mewn cyllid prentisiaethau yn Lloegr, cafodd £90 miliwn ei ddidynnu ar unwaith o ddyraniad llinell sylfaen Barnett i Gymru.

**24.** Mae Julie James, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, wedi pwysleisio sawl gwaith, gyda'r baich ariannol ychwanegol y bydd yr ardoll yn ei roi ar gyflogwyr y sector cyhoeddus, ni fydd arian ychwanegol amlwg ar gael i Gymru o ganlyniad i'r ardoll.[17] Trafodir pryderon penodol cyrff y sector cyhoeddus mewn perthynas â'r gost a amcangyfrifir o £30 miliwn o ganlyniad i'r Ardoll ym mhennod 6.

**25.** Dywedodd y Gweinidog wrth Aelodau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Rhagfyr 2016:

> "Maent yn awgrymu mai dyma'r arian ychwanegol i gyd, ond nid dyna'r sefyllfa mewn gwirionedd. Rwyf wedi mynd drwy'r ystadegau o'r blaen, a byddaf yn gwneud hynny eto. Yn fras—[Torri ar draws.] Na, mae'n syml iawn, fel y dywedais. Yn fras, yr hyn a ddigwyddodd yw ein bod wedi cael £114 miliwn i Gymru o ganlyniad i fformiwla Barnett ar gyfer yr ardoll brentisiaethau, a diddymwyd £90 miliwn o hwnnw ar unwaith am ei fod wedi cael ei roi yn y llinell sylfaen ar gyfer fformiwla Barnett, a £90 miliwn yw'r gostyngiad mewn cyllid prentisiaeth yn Lloegr o ganlyniad i'r symud rhwng yr ardoll brentisiaethau a threthiant cyffredinol. Cafwyd cyhoeddiad o £13.7 miliwn arall o ganlyniad i ailgyfrifo'r fformiwla, yn seiliedig ar yr arian a ddaw o Gymru, wedi llawer o lobïo o Gymru gan fusnesau a'r Llywodraeth. Fodd bynnag, y sefyllfa yw bod hon yn dal i fod yn dreth ar gyflogwyr a godir gan CThEM heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru."[18]

## Cyllideb Llywodraeth Cymru 2017-18

**26.** Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid refeniw ychwanegol gwerth £15.5 miliwn ar gyfer prentisiaethau yn eu Cyllideb Derfynol ar gyfer 2017-18.[19] Cyfanswm y cyllid a bennwyd ar gyfer prentisiaethau ar gyfer 2017-18 yw £126 miliwn.[20]

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

**27.** Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi rhwystredigaeth gyda'r sefyllfa ariannu sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i gyflwyno'r Ardoll gan Lywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog wrth y Cyfarfod Llawn, "nid yw CThEM, fel y gwyddoch, wedi ei ddatganoli i Gymru mewn unrhyw ffordd, ac mae'r arian yn mynd yn hollol groes i'n [polisi] prentisiaethau." [21]

**28.** Tra'n rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, disgrifiodd y Gweinidog y sefyllfa:

> "that's part of the problem with the UK Government behaving as a tax authority to raise an employer levy that is then funding a skills policy that is England based and what that does to the power of the devolved nations to be able to carry on with their particular devolution agenda.

[17] 09 Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth
[18] Cofnod y Trafodion – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 7 Rhagfyr 2016
[19] Cyllideb Derfynol 2017-18, Llywodraeth Cymru, 20 Rhagfyr 2016
[20] Ibid. Llywodraeth Cymru, 20 Rhagfyr 2016
[21] Cofnod y Trafodion – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 7 Rhagfyr 2016

It’s a fundamental principle of devolution that you ought not to have to implement the policy of your neighbours simply because they’re bigger than you are…”[22]

**29.** Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd ei bod hi'n bwysig cydnabod na fydd yr Ardoll wedi'i neilltuo:

> “I think it’s important to say, though, that for the apprenticeship levy it’s not hypothecated in England. The current Government is saying that they’ll spend it in this way but actually it’s not collected as a hypothecated tax, it is just a tax. So, it comes to us as just part of our settlement and we’re asked to decide how to spend that. This particular Government here in Wales has decided to put a large amount of money into apprenticeships. We’d already decided to do that; we were going to do it anyway. This hasn’t really affected that apart from it’s made the accounting for it rather more problematic.”[23]

**Casgliad 3.** Mae cyflwyno Ardoll ledled y DU er mwyn ariannu maes cymhwysedd datganoledig wedi dod â'n sylw i gymhlethdod y setliad datganoli. Mae'r Pwyllgor yn rhannu rhwystredigaeth y Gweinidog fod yr Ardoll wedi cael ei gosod heb ymgynghori ac mae'n cydnabod yr effaith negyddol a allai gael ar ymreolaeth polisi gweinyddiaethau datganoledig.

## Argymhellion

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn credu na ddylai unrhyw ardollau yn y dyfodol mewn cymhwysedd datganoledig gael eu cyflwyno heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i nodi hyn gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen gwell cyfathrebu rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig rhwng Gweinidogion a rhwng swyddogion. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn nodi'r mater gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

[22] Cofnod y Trafodion, paragraffau 135 a 136, 8 Chwefror 2017
[23] Ibid. paragraff 258, 8 Chwefror 2017

# 04. Pryderon sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth

## Dim "adenillion uniongyrchol" o daliadau'r Ardoll

**30.** Un o brif bryderon y WRC yw nad oes unrhyw "adenillion uniongyrchol" o daliadau'r Ardoll i gyflogwyr yng Nghymru. Yn ei lythyr cychwynnol i'r Pwyllgor, nododd y WRC:

> "I would like to draw your attention to the extreme concern of the retail industry over our understanding that the retail industry and other Levy-payers in Wales will not have any opportunity to see a direct return from their contribution to the Apprenticeship Levy."[24]

**31.** Ynghyd â hyn, mae'r WRC yn poeni bydd dull Llywodraeth Cymru o sianelu cyllid i sectorau blaenoriaeth (nad yw'n cynnwys manwerthu) yn eu gadael o dan anfantais gan arwain at ddiffyg cymhelliant i fuddsoddi yng Nghymru. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd y WRC:

> "The key point is that not having access to levy funds would mean that employers would effectively have to pay twice to run apprenticeship programmes in Wales. This could put Wales at a disadvantage vis-à-vis other parts of the UK and lead to lower investment and productivity growth over time, unless retailers can at least indirectly access some of their levy funds in Wales."[25]

**32.** Er ei fod yn sector blaenoriaeth, nododd Centrica bwynt tebyg ynghylch adennill y gost a delir yn dilyn cyflwyno'r Ardoll. Yn ei dystiolaeth, gwnaeth Centrica wrthgyferbynnu hyn â'r sefyllfa yn Lloegr lle mae disgwyl iddynt ddefnyddio 100% o daliad Ardoll gwerth £3.8 miliwn eu sefydliad.[26]

**33.** Yn draddodiadol, mae'r rhan fwyaf o brentisiaethau mewn sectorau fel rhai manwerthu bod wedi ar Lefel 2 neu'n is. Yn ei thystiolaeth, nododd Llywodraeth Cymru:

> "Ar hyn o bryd, mae mwyafrif y rhai sy'n dechrau prentisiaethau i'w cael ar lefel mynediad ac yn dilyn Prentisiaethau Sylfaen ar lefel 2 (43 y cant); mae 35 y cant yn dilyn Prentisiaethau (lefel 3); ac mae 21 y cant yn dilyn Prentisiaethau Uwch (lefel 4 ac yn uwch)2. O'r prentisiaid hyn, mae'r mwyafrif mewn sectorau a galwedigaethau nad ydynt yn flaenoriaeth, er enghraifft ym meysydd gweinyddiaeth fusnes, manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid."[27]

**34.** Wrth ymateb i gwestiwn ar bryderon y sector manwerthu yng Nghymru, dadleuodd Sarah John o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y dylai'r sector manwerthu ystyried gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i ddatblygu llwybrau prentisiaeth newydd, fel dewis arall yn lle cynlluniau mynediad graddedig, mewn meysydd fel rheoli prosiectau, adnoddau dynol, logisteg a TGCh. Ychwanegodd Ms John:

> "Tesco has a head office in Cardiff and they do financial services and accountancy, so why not create those pathways with us and engage in that way

[24] http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=446&MId=3795&Ver=4
[25] 08 Consortiwm Manwerthu Cymru
[26] 01 Centrica
[27] 09 Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

rather than say, 'We want lots of our existing staff just to do level 2 retail'. Well, they're probably competent already, if they're existing staff—let's look at how we can develop them further. That's what I'd like us to challenge them with."[28]

## Cronfa sgiliau hyblyg

**35.** Mae'r WRC hefyd yn gwrthgyferbynnu'r sefyllfa yng Nghymru â'r sefyllfa yn yr Alban, lle mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cronfa sgiliau hyblyg. Dywedodd Sara Jones:

> "Whereas, in England, we'll have the opportunity to draw that money back and invest in the skills of our workforce through the apprenticeship system, and in Scotland we have got a flexible skills fund, so, again, our employers will be able to access that flexible skills fund, in Wales, there's no opportunity there. So, we're effectively paying into the levy, we're unlikely to see any return on that levy money in Wales and, consequently, to enable us to continue to invest in the training and skills needs of our workforce, we will continue to pay that money to enable those employees to have the same access as their colleagues across the rest of the UK. But clearly, in Wales, there is that situation where we're paying twice, unlike the rest of the UK."[29]

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

**36.** Nododd Llywodraeth Cymru mai ei nod yw "ail-gydbwyso'r buddsoddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion busnesau Cymru". Mae hyn yn golygu "symud hyfforddiant prentisiaethau o sectorau cost isel, lle y mae'r cynnwys sgiliau'n gymharol fach a lle nad oes fawr o dystiolaeth o brinder sgiliau, i sectorau o werth mawr".[30]

**37.** Mewn tystiolaeth lafar, soniodd y Gweinidog am effeithiau posibl polisi Llywodraeth Cymru i symud i ffwrdd o'r prentisiaethau lefel is ar sectorau fel manwerthu. Dywedodd y Gweinidog:

> "I think it's also important to remember that apprentices are not the only kind of work-based learning. So, just because we're not offering a level 2 apprenticeship in shelf stacking for retail people doesn't mean we're not offering work-based learning to retail people; it's just not an apprenticeship, because that's not appropriate. There are lots of other work-based learning arrangements that we have in place, including things like traineeships to get people up to the level of an apprenticeship, but also just standard work-based learning that we also support. I think one of the issues around the apprenticeship levy is that it's a shame it's called 'the apprenticeship levy' and not 'the work-based learning levy', because actually apprenticeships are very important, but they're not the only kind of work-based learning and, for some areas, not at all appropriate. What we don't want is to have people, as I say, working happily and then showing up after three years to discover they've been an apprentice all this time and are now getting a certificate. I'm not suggesting

[28] Cofnod y Trafodion paragraff 267, 2 Chwefror 2017
[29] Ibid. paragraff 41, 8 Chwefror 2017
[30] 09 Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

> that's happening in England, but we're very keen that it doesn't happen here in Wales."[31]

## Prentisiaethau Lefel Uwch

**38.** Mae'r Pwyllgor yn gefnogol o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o symud tuag at brentisiaethau lefel uwch. Yn y ddogfen strategaeth ddiweddar, mae'r Gweinidog yn cadarnhau'r blaenoriaethau cyflawni ar gyfer 2016-2022, gan gynnwys canolbwyntio ar sgiliau lefel uwch (Lefel 3 ac uwch).

**39.** Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn falch o glywed:

> "We will continue to monitor the effectiveness and relevance of Foundation (level 2) Apprenticeships to determine whether a new approach is required to meet the skills requirement for entry level jobs."[32]

**40.** Ymhellach, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "The skills content of an Apprenticeship is set at a level to meet the future skills needs of the Welsh economy. Entry level (Foundation Apprenticeships) should normally be achieved on route to completing an Apprenticeship; there should be automatic progression to an Apprenticeship. In future years, the focus will be on delivering Apprenticeships at level 3 and above, where returns tend to be higher, putting in place a phased reduction in entry level Apprenticeships in non-priority sectors."[33]

**Casgliad 4.** Bydd cyflwyno'r Ardoll yn amlwg yn arwain at ganlyniadau anfwriadol i bob sector, yn enwedig sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth, yng Nghymru. Er bod y Pwyllgor yn croesawu strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o symud tuag at brentisiaethau lefel uwch, mae'n pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i dawelu pryderon sectorau allweddol fel manwerthu a gweithio gyda nhw, yn enwedig o ran hyrwyddo'r opsiynau hyfforddiant a dysgu seiliedig yn y gwaith eraill sydd ar gael iddynt.

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu, er gwaetha'r Porth Sgiliau i Fusnes, nad yw busnesau yn ddigon ymwybodol o'r dewisiadau eraill sydd ar gael iddyn nhw o ran cymorth i ddysgu yn y gweithle.

---

[31] Ibid. paragraff 149, 8 Chwefror 2017
[32] Llywodraeth Cymru: 'Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru', Chwefror 2017
[33] Ibid.

## Argymhellion

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dwysáu ei hymdrechion i dawelu pryderon sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yng Nghymru drwy weithio gyda nhw i ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant, gan gynnwys llwybrau prentisiaeth newydd, mewn meysydd llai traddodiadol fel gwasanaethau ariannol, rheoli prosiectau, adnoddau dynol a logisteg.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu sicrhau bod pob cyflogwr (gan gynnwys y rhai mewn sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth sy'n gwneud taliadau Ardoll) yn ymwybodol o'r cyfleoedd i oresgyn y mater 'dim adenillion uniongyrchol' drwy fodel Cymru o gyflawni prentisiaeth.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi arfer da ac yn gwerthuso'r cynigion ar gyfer y gronfa sgiliau hyblyg yn yr Alban (a elwir yn Gronfa Datblygu Gweithlu Hyblyg).

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu hyrwyddo a gwella'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau ymysg cyflogwyr yng Nghymru, yn enwedig ymysg y sectorau hynny nad ydynt yn draddodiadol wedi cael llwybrau clir i brentisiaethau lefel uwch.

# 05. Materion trawsffiniol, disgwyliadau a chludadwyedd

## Materion trawsffiniol

**41.** Clywodd y Pwyllgor y gallai materion trawsffiniol ymddangos yn fwy amlwg ar ôl cyflwyno'r Ardoll, ac wrth i'r systemau prentisiaeth yn Lloegr a Chymru barhau i wahanu. Amlygodd nifer o dystion yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu o fewn dwy gyfundrefn ar wahân sy'n cynnwys cymhlethdod cynyddol a chostau gweinyddol.[34]

**42.** Disgrifiodd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu rai materion trawsffiniol y mae'r sector adeiladu yn profi:

> "We obviously have major contractors that have a training centre based in England, and they draw Welsh candidates through to that. But we also have the reverse, with the likes of Redrow, that seek to bring their employees into Wales to put a system together that works for them, based out of Coleg Cambria. So, it does work both ways. And it's that difference across the border, with two different systems, both qualifications and funding, that is causing concern, particularly for some of the smaller businesses that may be based in west Wales that are having ambitions and are now opening offices in Bristol and beyond."[35]

**43.** Mae'n debygol y bydd mwy o faterion trawsffiniol ymarferol yn amlygu eu hunain dros y 12 mis nesaf wrth i'r system newydd yn Lloegr gael ei gweithredu.

## Gwella disgwyliadau

**44.** Mae cyflwyno'r Ardoll hefyd wedi gwella disgwyliadau cyflogwyr ledled y Deyrnas Unedig. Mewn cyflwyniad ysgrifenedig, eglurodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

> "…the advent of the apprenticeship levy will increase the appetite amongst those who pay it, to develop their own apprenticeship programme. We also recognise that some of these employers will be in sectors for which there is currently very little, if any, capacity or capability to provide. The NTfW would ask the Committee to urge the Welsh Government to increase its own capacity and capability in developing apprenticeships for Wales, as with the advent of 'Trailblazers' and the more recent post-16 Skills Plan, most UK-wide organisations will be focused on developments in England."[36]

**45.** Roedd Colegau Cymru yn adleisio'r ymdeimlad hwn, ond ceisiodd hefyd roi sylw i'r goblygiadau posibl i fusnesau bach a chanolig. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd:

> "For small and medium size enterprises (SMEs) who are not eligible to pay the levy, there are also concerns. For instance, if large companies look to recoup their entire levy by training additional apprentices, this could eventually reduce

---

[34] 01 Centrica; 10 Coleg Cambria;
[35] Cofnodion y Trafodion, paragraff 78, 8 Chwefror 2017
[36] 05 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

the scope for SMEs, potentially through means such as imposing stricter eligibility conditions."[37]

**46.** Dywedodd Colegau Cymru hefyd mai un o ganlyniadau cadarnhaol yr Ardoll oedd yr ysgogiad mewn galw am brentisiaethau ar ran cyflogwyr.[38] Roedd nifer sylweddol o dystion yn disgwyl i'r galw am brentisiaethau gynyddu o ganlyniad i'r Ardoll.[39]

**47.** Galwodd Colegau Cymru am gynllun sgiliau ôl-16 cynhwysfawr yng Nghymru hefyd:

> "A strategy for post-compulsory education is urgently needed to help address issues of apprenticeships, training and skills at all levels in a coherent manner. This needs to be set against a comprehensive economic strategy for Wales, dealing with the specific circumstances of Wales, and taking account of some of the ideas set out in the 2015 IWA report 'An Economic Strategy for Wales'."[40]

**48.** Cyhoeddwyd papur polisi ar gyfer Lloegr, **Post-16 skills plan and independent report on technical education**, ym mis Gorffennaf 2016.

**49.** Yn ystod tystiolaeth lafar, cydnabu'r Gweinidog fod disgwyliadau cyflogwyr wedi cynyddu o ganlyniad i'r Ardoll. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog hefyd:

> "We absolutely agree with the UK Government's need to drive investment on this, but I don't think this is the right way to do it. I've just said in public many times, and I'll say it again here, I think that what we've got here is a specific employer tax just replacing general taxation, and, actually, we fear that it will not drive extra investment. What it will do is muddy the waters of investment and make those firms that are made to pay the levy resentful and have raised expectations in areas that aren't necessarily the right areas for the growth of the economy, and may cut off the SME market from those training funds. So, we've sought, in Wales, not to do that."[41]

## Cludadwyedd a hyblygrwydd

**50.** Mae cludadwyedd a hyblygrwydd yn gyffredin â'r thema trawsffiniol. Er enghraifft, nododd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu fod cludadwyedd yn fater allweddol ar gyfer y diwydiant, gan ddweud:

> "…it's the portability. So, we have a lot of construction employers that have a very mobile workforce, and that, for us, is a major issue, and that's something that we'll be seeking to address as far as access to work across the border."[42]

**51.** Awgrymodd nifer o dystion y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi defnyddio cyflwyno'r Ardoll i ystyried ei gwneud yn fwy hyblyg i gymhwyso ar gyfer eu Fframweithiau a Phrentisiaethau. Dywedodd Craige Heaney o Centrica mewn tystiolaeth lafar:

---

[37] 03 Colegau Cymru
[38] Ibid.
[39] 06 Conffederasiwn GIG Cymru; Cofnod y Trafodion, paragraff 184, paragraff 194, 2 Chwefror;
[40] Ibid.
[41] Ibid. paragraff 131, 8 Chwefror 2017
[42] Ibid. paragraff 74, 8 Chwefror 2017

> "I would add to that in terms of—we don't necessarily see there'll be a decline in the number of apprentices that we take on, but where there is a missed opportunity in there are up to 200 to 300 people being recruited in Wales every year on behalf of British Gas, and a small proportion of them are trained through the apprenticeship route. I have an opportunity to train them through the apprenticeship route, but, because of there being different frameworks, it makes it difficult for that to be recognised as an apprenticeship. I recognise that, obviously, the Welsh Government has a target of 100,000, and we feel that there's a bigger opportunity for us to contribute to that target. So, it's not necessarily from our perspective that we see there being a reduction in apprenticeships, but, where we are expanding our apprenticeship schemes, I feel that there is a potential missed opportunity."[43]

**52.** O ran cludadwyedd, yn yr un modd â materion trawsffiniol, roedd consensws ymysg y panel o fusnesau ei bod hi'n hanfodol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall systemau prentisiaethau ddiwallu anghenion cyflogwyr y DU. Dywedodd Joanne Foster o GE Aviation:

> "In terms of cross-border issues, which you raised, I think the onus is on the Governments to work together to make this run as smoothly as possible."[44]

[43] Cofnodion y Trafodion, paragraff 31, 2 Chwefror 2017
[44] Ibid, 2 Chwefror 2017

**Casgliad 6.** Mae'n amlwg bod cyflwyno'r Ardoll wedi arwain at fusnesau a chyflogwyr, yn enwedig mewn sectorau nad ydynt yn draddodiadol yn cyflogi prentisiaid, i edrych ar sut y gallent fanteisio ar brentisiaethau fel rhan o'u busnes. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r galw cynyddol am brentisiaethau a'r diddordeb ynddynt.

**Casgliad 7.** Fodd bynnag, mae cyflwyno'r Ardoll wedi rhoi mwy o sylw i'r gwahaniaeth cynyddol mewn cynlluniau prentisiaethau ar draws gwledydd y DU. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen edrych ar y materion alinio a chludadwyedd sy'n codi o ganlyniad i anghenion sy'n gwahaniaethu.

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch yr effaith ar yrfaoedd prentisiaid unigol os nad yw eu tystysgrifau prentisiaeth yn gludadwy a bod gwerth iddynt mewn rhannau eraill o'r DU.

**Casgliad 9.** Canfu'r Pwyllgor fod nifer o gyflogwyr yn rhwystredig gyda'r diffyg hyblygrwydd yn y cynllun prentisiaeth presennol, yn enwedig mewn cysylltiad â diwydiannau a sectorau nad ydynt wedi cyflogi prentisiaethau yn draddodiadol, fel y gwasanaethau ariannol. Ar ben hynny, clywodd y Pwyllgor safbwyntiau gwahanol o ran gweithredu'r rhaglen prentisiaeth 'Trailblazers' yn Lloegr. Mae'r Pwyllgor yn credu bod rhinwedd mewn rhai agweddau ar y dull hwn.

**Casgliad 10.** Mae hyd a lled materion yn ymwneud â phrentisiaid gan gynnwys cludadwyedd, materion trawsffiniol a hyblygrwydd ac ymatebolrwydd y system yn golygu y gallai'r Pwyllgor ddymuno gwneud gwaith pellach yn edrych ar prentisiaethau ar y cyfan ac yn ddiweddarach yn ystod y Pumed Cynulliad.

## Argymhellion

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda chymheiriaid i sicrhau bod cyfleoedd i helpu busnesau i oresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu 4 system ar wahân yn cael eu nodi.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn edrych ar opsiynau i weithio gyda busnesau a chyflogwyr i gael prentisiaethau gyda sectorau nad ydynt yn cyflogi prentisiaid yn draddodiadol.

# 06. Yr effaith ar y sector cyhoeddus yng Nghymru

**53.** Amcangyfrif cost yr Ardoll i gyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru fydd tua £30 miliwn yn y flwyddyn gyntaf. Bydd yr Ardoll yn effeithio ar bron pob cyflogwr yn y sector cyhoeddus gan gynnwys y GIG, llywodraeth leol a'r Heddlu. Bydd lefelau uwch o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd yn golygu y bydd yr Ardoll yn effeithio'n anghymesur ar Gymru.

## Yr effaith ar gyllidebau'r sector cyhoeddus

**54.** Mae CLILC, er enghraifft, yn dweud y bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru dalu'r Ardoll. Mae'r CLILC yn pryderu bod pwysau sylweddol eisoes ar gyllidebau awdurdodau lleol, na fydd dim o daliadau'r Ardoll yn cael eu dychwelyd i'r awdurdodau lleol ac na fydd gan awdurdodau lleol opsiwn o gynyddu prisiau, yn wahanol i'r sector preifat.[45]

**55.** Dywedodd cynrychiolwyr y GIG y byddai goblygiadau hefyd oherwydd maint y sector cyhoeddus yng Nghymru, y bydd taliadau Ardoll y gweithlu yn sylweddol uwch yn y sector cyhoeddus na'r rhan fwyaf o'r sector preifat. Tynnwyd sylw hefyd at y pwysau sydd eisoes ar gyllidebau'r GIG.

## Pryderon eraill

**56.** Mae nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus gan gynnwys CLILC, Conffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru yn rhannu pryderon cyflogwyr nad oedd "adenillion uniongyrchol" o daliadau'r Ardoll.[46] Nid yw'r CLILC yn cefnogi'r Ardoll ac mae'n gweld hyn yn ddim mwy na baich treth ychwanegol a chostau ychwanegol i'r gweithlu.

**57.** Yn yr un modd, mae peth dryswch ymysg cyflogwyr y sector cyhoeddus ynghylch effaith yr Ardoll ar ddarparu prentisiaethau yng Nghymru. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig, nododd CLILC:

> "However, it is worth noting that this has been a UK government issue and there has been a sense of reluctance by Welsh Government to issue any formal advice and guidance on this matter unless asked to do so. This has caused some frustration and confusion."[47]

**58.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd galw cynyddol am brentisiaid o'r sector cyhoeddus (yn enwedig y GIG, yr heddlu ac awdurdodau lleol) ac mae eisoes yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn ar ffyrdd i gyflawni hyn. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "We will work with public sector organisations on their workforce planning, to encourage a greater up-take of apprentices, specifically within Local Authorities, the NHS and the 'blue light' services."[48]

## Ysgolion a gynhelir yng Nghymru

Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) bryderon penodol ynghylch effaith yr Ardoll ar ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Y pwyntiau allweddol a wnaed gan CLILC yw:

---

[45] 07 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[46] 06 Conffederasiwn GIG Cymru ; 04 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
[47] Ibid.
[48] 09 Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

– Barn Cyllid a Thollau EM yw bod ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yn ffurfio rhan o gyflenwad staff awdurdodau lleol ac felly bydd yn rhaid iddynt dalu'r Ardoll o'r arian sydd wedi'i ddatganoli iddynt;

– Bydd bil cyflog ysgolion unigol yn y mwyafrif helaeth o ysgolion yng Nghymru yn llai na'r trothwy o £3 miliwn;

– Mae hyn yn wahanol iawn i ysgolion academi yn Lloegr ac ysgolion eraill nas cynhelir na fydd yn rhaid iddynt dalu'r Ardoll gan y byddant yn cael eu trin fel cyflogwyr ar wahân at ddibenion yr Ardoll;

– Hoffai CLILC weld Llywodraeth Cymru yn nodi hyn gyda Llywodraeth y DU fel mater annheg ac anghyson;

– Maent hefyd yn nodi nad yw'r llwybr gyrfa ar gyfer athrawon yn cynnwys cynlluniau prentisiaeth.

## Yr Heddlu

**59.** Yn ystod y dystiolaeth lafar, ymatebodd y Gweinidog a'i swyddogion i gwestiynau am effaith yr Ardoll ar heddluoedd Cymru, yn enwedig o ystyried bod y Coleg Plismona wedi'i leoli yn Lloegr ac yn gwasanaethu heddluoedd Cymru a Lloegr. Dywedodd y Gweinidog y byddai heddluoedd yng Nghymru yn cael £0.5 miliwn i'w helpu i ddatblygu cynllun prentisiaeth.[49] Eglurodd swyddog y Gweinidog, Ms Huckle, hefyd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â'r Coleg Plismona ac wedi trefnu cyfarfodydd â heddluoedd Cymru, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

**Casgliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd yr Ardoll yn effeithio'n anghymesur ar y pwrs cyhoeddus yng Nghymru oherwydd y lefelau uwch o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

**Casgliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn eithriadol o siomedig y bydd ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn cael eu trin yn wahanol i ysgolion Academi yn Lloegr at ddibenion cyfrifo'r Ardoll ac nid yw'n cytuno â rhesymeg Llywodraeth y DU dros wneud hynny. Mae awdurdodau lleol eisoes yn wynebu gwasgfa ar gyllid a bydd cyflwyno'r Ardoll yn gwaethygu hyn.

**Casgliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch effaith yr Ardoll ar heddluoedd yng Nghymru. Mae'n debygol y byddant yn colli allan yn ariannol oherwydd lleoliad y Coleg Plismona a'r dulliau gwahanol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu bod gwaith ymgysylltu'r Gweinidog â phenaethiaid yr heddlu, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, yn dod yn hwyr yn y dydd.

[49] Cofnod y Trafodion, paragraff 222, 8 Chwefror 2017

## Argymhellion

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell ar frys bod y Gweinidog yn lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw nifer y bobl a gyflogir gan awdurdodau lleol mewn ysgolion yn cael eu cynnwys yn nifer y cyflogeion cyffredinol awdurdodau lleol at ddibenion cyfrifo'r Ardoll. Bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar gyllidebau ysgolion yng Nghymru ac mae'n mynd yn groes i'r ffordd y caiff ysgolion Academi eu trin yn Lloegr.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda heddluoedd yng Nghymru a gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i sicrhau na fydd heddluoedd Cymru o dan anfantais annheg gan y bydd yn rhaid i heddluoedd yng Nghymru dalu'r Ardoll ond na allant ddefnyddio'r Ardoll i gyfrannu at gyrsiau achrededig yng Nghymru.

# Atodiad A

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- Beth yw'r goblygiadau o ran cyflwyno Ardoll Brentisiaethau'r DU i gyflogwyr yng Nghymru?
- A fydd goblygiadau gwahanol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a chyflogwyr yn y sector preifat?
- A oes goblygiadau penodol i gyflogwyr sy'n gweithredu yng Nghymru a ledled y DU (nad ydych wedi cyfeirio atynt yn eich ymateb yn barod)?
- Os oes gennych bryderon am ariannu prentisiaethau ar ôl cyflwyno ardoll y DU, beth hoffech chi i Lywodraeth Cymru ei wneud i ymdrin â'ch pryderon?
- Beth, os unrhyw beth, yw'r materion sy'n ymwneud â materion cyllid a pholisi trawsffiniol sy'n codi o gyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau (nad ydych wedi cyfeirio atynt yn eich ymateb yn barod)?
- A oes gennych unrhyw farn ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â chyflogwyr o ran yr Ardoll Brentisiaethau?
- A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol neu bryderon ynghylch y system bresennol o ran ariannu prentisiaethau yng Nghymru? Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud i fynd i'r afael â phryderon yr ydych wedi eu nodi?